

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymru Cymraeg i bawb eu darllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 3 Rhif 6

Yn rhad ac am ddim

Medi 2022

Taith Ardal Broughton



Traeth Broughton

Taith o Gwmpas Broughton

gan Rob Evans

Yn ystod yr wythnos roedd rhybuddion am dywydd crasboeth dros y penwythnos ag Eirian wedi ein cynghori ni i roi eli haul ymlaen a dod a ddigon o ddŵr efo ni. Ond wrth i'r dyddiau mynd ymlaen roedd y rhybuddion wedi symud o'r penwythnos i ddyddiau cyntaf yr wythnos wedyn. Ond er hynny roeddwn i wedi taenu eli haul ar fy mreichiau a'n wâr, wedi pacio dwy botel ac wedi ffeindio fy het.

Pwyll oedd pia hi ar y ffordd achos yr holl seiclwy'r oedd yn cymryd mantais o'r tywydd ond pwy sydd eisiau mynd yn gyflym beth bynnag! Unarddeg ohonom ni oedd yn y maes parcio tu draw i Lanmadog ac yn barod i fynd. I lawr yr allt serth i ddechrau tan i ni gyrraedd y twyni tywod ar draeth Chwitford, traeth hir ble mae aber y Llwchwr yn cyrraedd y môr. Dyma le tawel heb lawer o bobl, yn boblogaidd efo rhai sydd yn addoli'r haul. Dyn ni'n hoff iawn o'r haul hefyd ond mae'n well gennym ni gadw ein dillad ymlaen, os dach chi'n gweld beth dw i'n meddwl.

Roedd yn anodd cerdded ar y twyni ond roedd y traeth yn llawer gwell efo'r tywod yn fwy soled ac wrth i ni nesáu at draeth Broughton



Bae Broughton

roedd ychydig mwy o bobl o gwmpas. Mae'r traeth yn boblogaidd efo nhw sydd yn syrffio ond heddiw doedd dim gwynt a'r môr yn dawl, diwrnod i dorheulo ac ymlacio. Ond doedd gynnwng ni ddim amser i ymlacio ac ar ôl sbelan yn eistedd uwchben y traeth i werthfawrogi'r olygfa roedd bryn i ni ddringo a chroesi i fae Rhosili. Hanner ffordd roedden ni'n edrych i lawr ar fae Pwll Glas, eto ychydig o bobl oedd ar y traeth achos yr unig ffordd i gyrraedd neu i ddianc o'r traeth pan mae'r llanw yn dod i mewn yw llwybr serth i lawr y clogwyn.

Cyn mynd i lawr i draeth Rhosili cawson ein picnic mewn lle cyn bach yn edrych drosodd ar ynys Burry Holms. Haner ffordd rhwng fan hyn a phentref Rhosili drylliodd y 'Dollar Ship',

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

roedd hyn yn ôl yn 1691 ac roedd y llong yn llond aur ac arian gwerth £80,000, llawer o arian yn y dyddiau hynny wrth gwrs. Dim ond rhyw £13,000 sydd wedi dod i'r golwg yn swyddogol ond os dach chi'n cerdded o faes carafannau Hillside tuag at bentref Llangennith byddech chi'n dod ar draws bwthyn o'r enw 'Dollar Cottage'. Tybed pam?

Cerdded ar y traeth rŵan i gyrraedd y llwybr yn ôl i Lanmadog ond roeddwn i'n colli'r awel erbyn hyn ac yn teimlo'r gwres ond roedd rhaid mynd ymlaen. Roedd y filltir olaf yn fater o 'ben i lawr a phlodio' ac mewn pen dim roedden ni'n ôl wrth y ceir. A dyma le oedd trîr yn aros amdanom ni. Rhyw ganllath o'r lle parcio mae caffi sydd yn gwerthu hufen ia a dyna oedd wedi cadw ni i fynd yn yr awr olaf. Felly ar ôl rhoi ein bagiau yn y ceir dyma ni yn cerdded yn hamddenol i fwynhau rhywbeth blasus ac oer. Digwydd bod, roedd y perchennog yn siarad Cymraeg a, mwy na hynny, roedd hi'n cynnal 'Dydd Iau Shwmae' bob wythnos rhwng 11yb a 4yh. Mae taflenni ar gael efo geirfa i'ch helpu chi i archebu beth bynnag maen nhw'n gwerthu. Am syniad da!

Felly os dach chi'n byw ar Gŵyr neu, hyd yn oed Llanelli ac Abertawe, ewch draw ar ddydd Iau i gymryd mantais o awyrgylch Gymraeg. Ar ddydd Iau bydd pob un o'r staff yna yn siarad Cymraeg. Maen nhw ar Facebook felly allech chi ddilyn nhw ar

< <https://www.facebook.com/cwmivcrafts/> > .

A dyna ni taith arbennig a syrpreis arbennig ar y diwedd. Diolch i Eirian am drefnu.

A, gyda llaw, dach chi'n ynganu Broughton fel Bryffton!

Bywyd Gwyllt yn y Bannau

gan Shelagh Fishlock



Ym Mis Gorffennaf ces i'r fraint a'r pleser o ymuno â thaith gerdded i ddysgwyr gydag Iolo Williams, y naturiethwr adnabyddus sy'n cyflwyno rhaglenni ar S4C ac ar y BBC. Trefnwyd pedair taith ar draws Cymru gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg a Mentrau Iaith lleol, a hon oedd yr un olaf.

Roedd brechdanau a diodydd ar gael cyn y daith, ac amser i gwrdd â phobl eraill. Wrth lwc, daeth Iolo i eistedd ar yr un bwrdd â fi i gael paned a sgwrs. Cyfle i fi ddangos fy hun gan sôn am degeirianau (orchids) a welais yng Ngwlypdiroedd Casnewydd yn ddiweddar – ro'n i newydd ddysgu'r gair. "O, pa fath o degeirian?" gofynnod e. "Mmmm.....Rhaf porffor?" Y tro nesa, taw piau hi!

Wedyn bant â ni ar draws y Traeth. Doedd neb yn disgwyl traeth ar ben Bannau Brycheiniog, ond esboniodd Iolo taw hen air am leoliad gwlyb yw traeth, ac er roedd hi'n noson heulog, roedd digon o gors yna!

Cawson ni ddwy awr hynod o ddiddorol. Gwelon ni ysgyfarnogod (neu sgwarnogod ar lafar), sawl math o wyfynod (moths), broga bach (Llyffant yn y gogledd – bach o ddadl am yr enw!), hyd yn oed gwlithenni (slugs), a gwelon, neu yn aml dim ond clywson, adar yr ardal, gan gynnwys asgell fraith (chaffinch), gylfinir (curlew), giach (snipe), cnocell y coed (woodpecker), barcud (kite), ehedydd (skylark) a nico (goldfinch). Gyda phob creadur newydd

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com


buodd stori ddoniol ac esboniad manwl am ystyr yr enw Cymreig, neu fywyd yr anifail, problemau newid hinsawdd neu ffermio modern. Er enghraifft, esboniodd yr enw “gylfinir” – Gylfin yw enw arall am big, felly “Gylfin hir” a’r “h” yn diflanu. Ac mae enw tafodieithol y nico, sef “teiliwr Llundain”, gan oedd pobl gyfoethog yn talu am wisg foethus oddi wrth deiliwr yn Llundain.

Yn ystod y daith siaradodd Iolo yn Gymraeg ac yn Saesneg i wneud yn siwr bod pawb yn deall, ac yn ein hannog ni i ofyn cwestiwn neu rhoi sylw at bethau o ddiddordeb. Doedd neb yn cael ei feirniadu am lefel ei Gymraeg, ac roedd diddordeb gyda fe yn syniadau pawb.

Ar ddiwedd y noson ro’n ni i gyd mor ddiolchgar, ond fe wnaeth diolch i ni am fod mor frwdfrydig dros y Gymraeg, ac am ddod mas i ddarganfod byd natur. Am ddyn mor hael a gyfeillgar!

Chwarae Teg i’r Iaith

gan Patrick Soper



Mae gan fis Awst 2022 dau ddyddiad pwysig.

Yn gyntaf, yn cofio bywyd dynes arbennig, Eileen Beasley.

Roedd Trefor ac Eileen Beasley yn byw yn Llangennech, ger Llanelli roedd hi’n athrawes, a gweithiai Trefor fel glöwr. Roedd ganddyn nhw ddau o blant.

Yn ôl yn y 1950au cynnar doedd gan ein hiaith dim statws swyddogol o gwbl. Roedd arwyddion y ffyrdd yn uniaith Saesneg a pob tamaid o waith papur yn Saesneg. Cafodd Cwm Tryweryn ei foddi wrth ddinistrio'r gymuned. Gwnaeth hyn peri dicter yng Nghymru wrth inni bwyso a mesur ein hunaniaeth a’n diwylliant, yn gofyn i ni’n hunain ai oedden ni’n genedl neu dim ond rhanbarth o Prydain?

Pan dderbyniodd Eileen Beasley bil yn uniaith Saesneg oddi wrth y cyngor lleol, dyna hi’n ei anfon yn ôl, wrth ofyn am fil dwyieithog. Atebodd y cyngor, Na.

Am wyth mlynedd gwrthododd y cyngor gytuno â’r cais hollol resymol. O ganlyniad, ymddangosodd y cwpl yn y llys lleol 16 o weithiau, daeth y beili i atafaelu eu dodrefn dair gwaith, a threuliodd Trefor wythnos yn y carchar. Ond gwrthododd y teulu ildio. Yn y diwedd, yn 1960 wnaeth y cyngor gytuno anfon bil dwyieithog, a fe’i dalwyd gan Eileen Beasley yn syth. Ond pam oedd rhaid iddyn nhw straffaglu cymaint i ennill eu hawliau dynol?

Bu farw Trefor Beasley yn 1994, ac Eileen ym mis Awst 2012.

Hefyd bydd mis Awst 2022 yn ben-blwydd 60eg sefydliad Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, sy’n brwydro dros ein hiaith, yn galw am gydraddoldeb â Saesneg i’r Gymraeg yng Nghymru.

Roedd llawer o resymau yn cyfrannu at esgor y Gymdeithas - y ffordd y cafodd y teulu Beasley ei drin, arwyddion ffyrdd yn Saesneg yn unig a phrinder darlledu yn y Gymraeg. Wedyn trychineb Tryweryn, diffyg addysg Gymraeg go iawn, dynion a merched ifainc yn cael eu carcharu am brotestio yn heddychol. Ar ben hyn oll roedd diffyg ffurflenni swyddogol yn y

Help Spread the Word!

The Wennol depends on word of mouth to get more readers. So pass on a pdf to those people you know who are learning Welsh.

Thank you

Helpwch ymledu'r Gair!

Mae'r Wennol yn dibynnu ar bobl i basio'r pdf ymlaen er mwyn cael cyhoeddusrwydd. Felly anfonwch y pdf ymlaen i'ch ffrindiau sy'n dysgu

Diolch

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Gymraeg, a gwrthodiad cyffredinol yn San Steffan i adnabod bodolaeth yr iaith Gymraeg. Hyn i gyd yn sbarduno Saunders Lewis i ddatgan ei ddarlith 'Tynged yr Iaith'.

Mae'r Gymdeithas yn sefydliad o bobl gyffredin, fel chi a fi; nid yw hwn yn fudiad o benboethiaid neu eithafwyr. Felly beth am ddod yn aelod neu gefnogwr y Gymdeithas fel ffordd o ddathlu ein pen-blwydd 60 oed?

Ewch at <https://cymdeithas.cymru/ymaelodi>

Mae'r llyfr ar gael yn eich siop Cymraeg leol, neu o'r argraffwyr:

<https://carreg-gwalch.cymru/8-11-darllenwyr-iau-76-c.asp>

Mae'r llyfr yma a'r stori yn arbennig o bwysig. Dyma oedd bobl gyffredin fel chi a fi yn sefyll i fyny dros ein hawliau ni, yn dioddef achos hynny and, yn y diwedd, yn ennill. Mi wnaeth eu sefydliad nhw newid y byd Cymraeg.

**Lle i ddysgu, i aros, i
fwyta, i ddathlu,
i gyfarfod, i grwydro**



nant gwrtheyrn

**A place to learn, to
stay, to eat,
to celebrate, to wander**



01758 750334

post@nantgwrtheyrn.org

www.nantgwrtheyrn.cymru

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalenau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Byth yn Rhy Hen

gan Adrian Pugh

Oes rywun am denis? Mis Hydref diwethaf dechreuodd fy mhartner, Megan, a finnau gwrs "Tennis Express", chwe wythnos gyda Chlwb Tennis Hwlfordd (HLTC). Roedd yn llawer o hwyl felly ymunon ni â'r clwb.

Dyn i'n ddechreuwyr llwyr ond dydy hynny ddim wedi ein hatal rhag cwblhau cystadleuaeth yr ysgol tennis na thwrnamaint blynyddol y clwb. Aethon ni drwodd i'r dyblau cymysg ac ennill un gêm, felly nid oedd yn grasfa. Dyn ni'n mwynhau chwarae tennis ac yn ceisio chwarae cwpl o weithiau bob wythnos. Dych chi byth yn rhy hen i ddechrau rhywbeth newydd!

Atal - to stop

Cwblhau - to complete

Blynyddol - annual

Dyblau cymysg - mixed doubles

Crasfa - a thorough beating

Ceisio - to try

Beic Troed

gan Anja Junghenn

Dach chi'n hoffi reidio beic? A minnau! Mae beiciau ym mhob man, ac mae pawb yn gwybod sut i reidio beic.

Ond dach chi erioed wedi gweld beic troed? Naddo? Dim problem, bydda i'n esbonio am beth ydw i'n siarad.

Dach chi'n gwybod sgwter ar gyfer blant? Mae ganddo olwynion plastig bach, ac mae'n hawdd mynd â sgwter ar y bws neu ar y trê.

Ond mae'r sgwter yn degan, a deud y gwir. Mae'n anodd iawn ei ddefnyddio fel beic arferol. Mae'n flinedig cerdded yn hir efo sgwter. Dydy sgwter ddim yn ddiogel iawn achos does ganddo fo ddim goleuadau. A phob lwc os byddwch chi isio mynd i'r siop groser: heb fasged neu fagiau!

Chwarae teg, mae'n hwyl fawr cerdded â sgwter a theimlo fel plentyn ifanc unwaith eto. Felly, mi wnes i brynu beic troed! "Beth ydy hwnnw, 'te?", dach chi'n gofyn?

Sgwter i oedolion ydy o! Mae ganddo fo olwynion rwber mawr sy'n gwneud o fynd yn gyflym. Mae basged fach sy'n ddefnyddiol pan fydda i isio mynd allan heb sach deithio drwm.

Mae golau clir ar y blaen a golau coch ar y cefn – rŵan dw i'n teimlo'n ddiogel! Ac mae cerdded â beic troed yn dda iawn ar gyfer ieuchyd, hefyd!

Dach chi isio trio cerdded â beic troed?

Esbonio - to explain

Tegan - a toy

Beic arferol - ordinary bike

Blinedig - tiring

Goleuadau - lights

Defnyddiol - handy

Sach teithio - rucksack

Mynd Ymlaen wrth Gamu Nôl

gan Fi Benson

Un o'r ffyrdd dwi'n datblygu fy Nghymraeg yw benthg llyfrau o'r llyfrgell gyhoeddus a'u cyfieithu.


Dwi'n creu rhestrau geirfa gyda'r geiriau newydd dwi'n dod ar eu traws. Hefyd dwi'n gwneud nodiadau o strwythurau brawddegau sy'n newydd i mi.

Mae fy llyfrgell Gymraeg agosaf yn Nhrefynwy. Yn adran oedolion mae adran arbennig ar gyfer llyfrau Cymraeg, gan gynnwys llyfrau i ddysgwyr (er enghraifft y rhai sy'n cael ei gyhoeddi gan Y Lolfa).

Mae adran arbennig ar gyfer llyfrau Cymraeg yn yr adran plant hefyd. Dwi wrth fy modd yn darllen llyfrau plant! Nid ydynt yn cymryd oesoedd i'w orffen, maen nhw'n cyflwyno iaith mewn ffordd weledol iawn oherwydd y lluniau, a

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

dwi'n gallu bod ym myd plentyn am gyfnod.
Mae'n hwyl!



Camu nôl - stepping back
Datblygu - to develop
Benthyg - to borrow
Cyfieithu - to translate
Rhestr - list
Dod ar eu traws - to come across (them)
Strwythr - structure
Trefynwy - Monmouth
Adran - department, section
Cynnwys - to include
Cyhoeddi - to publish
Arbennig - special
Oesoedd - ages
Cyflwyno - to introduce
Am gyfnod - for a while
Gweledol - visual
Am gyfnod - for a while

Mae hyn yn syniad arbennig o dda ac yn effeithiol dros ben dw i'n siŵr. Beth am ei drio? Dywedwch wrthyn ni am eich profiad.

This is a very good idea and very effective I'm sure. What about trying it? Tell us about your experience.

Ymarfer, Ymarfer, Ymarfer

gan Ffred Nicholas

Dw i eisiau ysgrifennu at yr holl bobl hynny sy'n dysgu iaith y nefoedd - Cymraeg. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers sawl blwyddyn ac roedd yn anodd ar y dechrau ond nawr dw i'n mwynhau sgwrsio ag eraill fel fi.

Mae mynd i'r Hen Lyfrgell yn y Porth wedi codi fy hyder ac wedi rhoi'r cyfle i mi ymarfer yr **6**

hyn rydw i wedi ei ddysgu a chwrdd â phobl eraill dros baned. Dw i'n dal i wneud camgymeriadau ond does dim ots. Ymarfer, Ymarfer, Ymarfer yw'r gyfrinach!

I have met the group in Porth and they are a very enthusiastic bunch and as Fred says there is a great benefit in meeting other learners on a regular basis. The more you talk, the more you learn. Why not form a group in your area? All you need is a cafe and the price of a cup of whatever you fancy.

Also, your group could be there to help the next lot of learners in September! A win, win for the Welsh language.

Diwrnod Allan

gan Janette Lewis

Aethon ni am dro heddiw i weld Castell Dolwyddelan. Mi barcion ni ym Metws y Coed a chawsom baned yn y caffi. Wedyn aethon ar y trê i Bont Rufeinig a cherdded i'r Castell. Doedden ni ddim yn medru mynd i mewn i'r castell yn anffodus. Hefyd, roeddwn i'n drist iawn i weld bagiau baw ci wedi cael eu gadael ger y castell. Fasen nhw ddim yn gwneud hyn ger Buckingham Palace!

Mi feddylies i am hanes brenhinol Cymraeg, y milwyr Rhufeinig a hanes Oes Y Cerrig hefyd. Roedd llawer o bobl wedi cerdded yr ardal yma yn bell, bell yn ôl.

Gerddon ni dros y bryn ar Sarn yr Offeiriad (hyd yn oed mwy bobl yma cyn ni!) Mi gyrraedon ni Tŷ Hyll ond roedden nhw'n cau'n gynnar iawn felly dim cacen i ni.

Gerddon ni yn ôl wrth ochr yr afon, heibio Rhaeadr Ewynnol ac yn ôl i'r gar i fynd adre.

Roedd hyn yn dipyn o daith Janette, dros 15 milltir? Ond dw i'n siŵr roedd yn daith i'w gofio. Diolch am rannu hyn efo ni.

Oes rhywun arall wedi bod yn gwneud rhywbeth arbennig? Gadewch i mi wybod!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Ewch Amdani!

Ffurfiwch Grŵp ..

.. er mwyn cadw cysylltiad efo'r iaith.

Mae'n anodd i dori mewn i'r gymuned Cymraeg sydd yn biti dros ben achos mae'r cymunedau Cymraeg angen pobl fel chi. Pobl sydd wedi gweithio'n galed i ddysgu a hefyd wedi cyrraedd safon uchel. Pobl sydd eisiau siarad yr iaith. Dros y blynyddoedd mae llawer o ddysgwyr wedi mynd ar goll i'r iaith, mae'n anodd cadw eich Cymraeg i fynd os nad oes gennych rywun i sgwrsio efo chi. Tybed faint o gyn ddysgwyr sydd yn eich ardal?

Ond sut i gael y ddwy ochr at ei gilydd? Wel, byddai'n ddigon hawdd i chi drefnu cyfarfodydd efo'r dysgwyr oedd yn eich dosbarth, cael baned o goffi yn y caffi lleol a siarad yng Nghymraeg efo'ch gilydd

Un ffordd o wneud hyn yw gwneud yn siŵr bod pobl lleol yn clywed chi'n siarad. Mae hynny'n sicr o

What next?

Courses coming to an end in the summer?

If so this is the time to set up a group in your area so that you and your fellow learners keep your Welsh going. It is so easy to do, you only have to make sure that you have email addresses from everyone, choose somewhere public where you can meet, and there you are.

It's important that you meet where people can see you because, once Welsh people hear you they will want to know who you are and everything about you. You will then have begun your journey into the world of Welsh. And it is a very pleasurable world because the language needs people like you, people who have made such an effort to learn.

You will be helping us to keep the language alive and that is so important because of the pressures on the it. I was born in a village in Anglesey and Welsh was heard everywhere but when I go back now I only hear English. I find that very sad.

There are enough learners registering to learn every year to make a huge difference but so many find it difficult to break into the Welsh world. Forming a group would keep you in the language.

Not only that, you would be able to support those learners who follow you, to give them the chance to chat and have fun through the medium of Welsh. Each year your group will grow and more and more learners will reach the Welsh community.

If this happened all over Wales who knows how many learners would get the chance to speak Welsh every day.

When you've set up your group let me know and I can list it in the Wennol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Taith Boncath

gan Rob Evans

Roedd hi braidd yn wlyb ar y bore dydd Sadwrn, trueni ar ôl cael gymaint o ddyddiau heulog yn ddiweddar ond roedd daith ym Moncath yn galw ac roedd rhaid bod yna. Cyrraedd y pentref a pharcio'r car i wirio ble yn union oedd y man cyfarfod - Neuadd y Pentref. Ro'n i du allan i'r Swyddfa Bost, dyna oedd y lle i holi. Roedd dau yn y rhes a gofynnais i'r ail. "Ask the postmistress, she knows everything about the village." Oedd ei ateb. Petasai fo'n ddyn diarth bydda fo wedi dweud "Sorry, I'm a stranger here." Dydy Boncath ddim yn lle mawr. Beth bynnag, dim ond rownd y gornel oedd hi ac roeddwn i yna mewn chwinciad. O achos y tywydd roedd rhaid tynnu'r trywsus dal dŵr dros fy nhrywsus, mi oedd hi'n mynd i fod yn wlyb ofnadwy dan draed.

Ffwrdd â ni ar lonydd cul, lonydd tawel dros ben, hynny yw tan i dancer carthion ddod rownd y gornel. Roedd y lori yn cymryd holl led y lôn a chymerodd hynny dipyn o amser i ddatrys ond cyn bo hir roedd y lori ar ei ffordd i wagio ryw danc carthion yn rywle a ninnau ymlaen efo'n taith. Ond roedd llygaid yn ein gwyllo ni, llawer ohonyn nhw - gyr o wartheg. Dyn ni wedi sylweddoli ar deithiau diweddar pa mor fusneslyd yw gwartheg. Ond chwarae teg mae rhai o'n haelodau ninnau yn diddori mewn gwartheg a dyma Alun yn mynd atyn nhw i roi 'gwd inspeksiyn' iddyn nhw, fel bydden nhw'n dweud yn y 'Roial Welsh'. "Feri gwd" medda fo.



Alun yn Cymryd Stoc

Roedd dipyn o allt o'n blaenau ac wrth gerdded yn uwch sylweddolais fod olyga arbennig yn agor allan tu ôl i ni, ond ar ddiwrnod gwell wrth gwrs, doedd dim digon o olau i dalu teyrnged i'r tirlun. Yn y clawdd ar ein chwith

roedd Maen Colman ac o dan y cen roedd yn bosib gweld groes Geltaidd wedi ei naddu. Mae'n debyg mai carreg bedd Sant Colman oedd y maen yn wreiddiol. Mae eglwys Capel Colman rhyw ganlath i ffwrdd ac un peth oedd yn nodweddiadol oedd bod rhan fwyaf o'r ysgrifen ar y cerrig bedd mewn Cymraeg. Eglwys y stad yw Capel Colman a hynny'n esbonio pam mae hi mor addurnol.

Y Tŷ Cregyn oedd y lle nesaf a ffwrdd â ni ar ochrau cae o ŷd a chael ei synnu wrth weld car yn gyrru trwodd ond roedd yr ŷd mor uchel doedden ni ddim yn gallu gweld bod lôn ochr draw. Ffiw!

Yn anffodus doedd y Tŷ Cregyn ddim ar agor ond roedd rhai ohonon ni wedi gweld y tu fewn ar raglen 'Am Dro' yn ddiweddar ond roedd yn le delfrydol i gael ein picnic.

Beth sydd wir yn drist yw gweld adfeilion eglwysi a chapeli. Maen nhw wedi chwarae rhan bwysig dros y canrifoedd i gadw ein crefydd, diwylliant a'n hiaith i fynd. Dyma ni'n dod ar draws hen eglwys Llanfihangel Penbedw yn adfail yng nghanol dalion poethion. Roedd yn bosib mynd i mewn, y to wedi mynd a'r ffont mewn darnau wrth y lle drws. Does neb yn poeni'r dyddiau yma ac mae'n rhaid ofni am y dyfodol a'n safonau.



Hen Eglwys Llanfihangel Penbedw

Ond mae'r daith bron wedi dod i ben a dyma ni wedi cyrraedd cyrion Boncath unwaith eto. Taith arall wedi ei gwblhau gan y dewrion, 'sdim ots am y tywydd, mae'r cwmni wastad yn wych! Diolch i Hedd a Gareth am y gwaith paratoi ac am daith mor ddiddorol.

Cofiwch mae croeso mawr i chi ddod ar ein teithiau unrhyw amser. Does dim ond rhaid i chi droi fyny a gofyn amdanaf i.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Rhan 3 gan Celia Jones

Er i'r ysgol feithrin Gymraeg gyntaf erioed gael ei hagor mewn festri capel ym Maesteg yn 1949, prin iawn oedd ysgolion meithrin ar draws Cymru cyn y 70au. Ac eto mae'n amlwg fod cryn frwdfrydedd ymhlith rhieni a fu'n fodlon talu am yr addysg meithrin Gymraeg ym Maesteg - yn galw mor gynnar â'r 50au am gael addysg Gymraeg cynradd ac uwchradd i'w plant.

Yn ôl cyfrifiad 1971 dim ond 17% o drigolion y Cwm oedd yn siarad Cymraeg. Gyda'r iaith wedi colli tir mor sylweddol, diolchwn am weledigaeth a brwdfrydedd ambell i ysgolhaig cenedlaetholgar fel Jac L. Williams, Dan Lyn James a Norah Isaac (a aned ac a fagwyd ym mhentre'r Caerau) ac eraill. Erbyn 1981 roedd 350 o gylchoedd meithrin yn bodoli ar draws y wlad. Roeddynt wedi deall mai trwy addysgu'n plant yn y Gymraeg o oedran meithrin y byddem yn cryfhau a sicrhau dyfodol yr iaith.

Pan ddaeth y teledu i'n cartrefi, roedd y cyfan yn Saesneg a chafodd hyn ddylanwad negyddol ar yr iaith. Mae'r ddyled yn fawr i Gwynfor Evans am ei frwydr i gael sefydlu S4C yn 1982.

Ar ôl bron colli'r dydd, gwerthfawrognw y rhan hanfodol a chwaraeodd Syr Ifan ab Owen Edwards yn sefydlu Urdd Gobaith Cymru 100 mlynedd union yn ôl yn 1922 a hefyd yr Ysgol Gynradd Gymraeg gyntaf yn y Lluet yn 1939. Cyfrannodd yn sylweddol at achub ein treftadaeth a'n diwylliant a'n hiaith a rhoddodd y cyfle i blant Cymru gael eu haddysg, eu hwyl a'u hadloniant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cofiwn hefyd am fyfyrwyr, heddychwyr a gwladgarwyr eraill a gymerodd safiad dros eu hegwyddorion; ac yn hwyrach daeth Merched y Wawr, penwythnosau preswyl yn Llangrannog a Glanllyn, canolfan Nant Gwrtheyrn, papurau bro a lliaws o gymdeithasau brwdfrydig eraill.

Ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant eleni cawsom glywed fod miliynau o bunnoedd wedi eu clustnodi ar gyfer hybu addysg Gymraeg - cymaint mae'r rhod wedi troi dros y 200 mlynedd ddiwetha'.

Dros gyfnod fy oes, bu trawsnewidiadau anhygoel yn ein byd. Mae gen i gof o ysgrifennu ar lechen yn yr ysgol fach yn Llan. Heddiw heb ysgrifennu, gallwn siarad â chyfrifiadur a byddai

fy ngeiriau yn mynd yn awtomatig ar amrantiad i unrhyw le.

Pum mlynedd cyn fy ngeni, clywyd y darllediad radio cyntaf gan y BBC. Heddiw gallaf gael sgwrs fideo gyda theulu ben arall y byd. Beth fydd ein plant yn ei gofnodi ar gyfer eu plant hwythau? Eu mamiaith yn dal i ffynnu a'n byd yn fwy heddychlon a llai bregus? Edrychwn i'r dyfodol yn hyderus.

Yn Gwneud i chi Feddwl

gan Anne Lloyd

Beth sydd ddim i fwynhau gydag ymweliad ag Aberystwyth? Mae'r dref ger y môr, mae golygfeydd hyfryd, ac mae tipyn i'w wneud yno hefyd. Bant â ni.

Roedd hi'n ddiwrnod sych, ac roedd yr haul yn bygwth dod mas, er roedd hi'n wyntog iawn. Dechrau da - cawson ni le i barcio am ddim ar y prom. Y tro diwethaf o'n ni yn Aberystwyth, ro'n ni eisiau gweld y Camera Obscura ar ben 'Consti'. Ond doedd y peth ddim yn gweithio! Siomedig iawn. Gwell lwc y tro 'ma, gobeithio; ro'n i heb weld y camera ers amser maith. Cerddon ni lan y bryn, a chawson ni bicnic bach. Oherwydd y gwynt, ro'n i'n gwisgo mwy o'r coleslaw nag o'n i wedi'i fwyta!

Wedyn at y camera - ar agor heddiw, diolch byth. Y mwyaf yn y byd ydy e, ac rydych chi'n cael gweld mwy na mil o filltiroedd sgwâr o dir a môr. Mae'r delweddau ychydig yn aneglur, ond mae'r hen dechnoleg yn syml ond yn glyfar iawn.

Y n
ôl i
l a w r



Aberystwyth o'r Consti

Consti, ar gyfer nod y daith - sef gweld cerflun y Knife Angel. Gyda bach o help oddi wrth 'Google Maps' - diolch i fy mab, dw i'n anobeithiol yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

dilyn y cyfarwyddiadau, cyrhaeddodd ni Sgwâr Llys y Brenin. A 'beth ydy'r Knife Angel', dw i'n eich clywed chi'n gofyn. I egluro, ei enw amgen yn Saesneg ydy, 'The National Monument Against Violence and Aggression', ac mae'r cerflun wedi cael ei wneud o fwy na 100,000 o gyllyll. Daethon nhw o ddau gant o 'fanciau cyllyll', lle gall pobl roi eu cyllyll dan amnest. Yn fwy nodedig, cafodd rai eraill eu hatafael gan yr heddlu, ac yn ôl pob sôn, cyrhaeddodd sawl mewn tiwbiau tystiolaeth, a hyd yn oed â hylifau corfforol ar eu harwynebau! Mae'n gwneud i chi feddwl, yn wir.



The Knife Angel

Nod y cerflun, sy'n mynd o le i le er mwyn codi ymwybyddiaeth, ydy amlygu trosedd â chyllyll yn y Deyrnas Unedig, ac er mwyn addysgu pobl ifanc am effaith ymddygiad treisgar ar gymunedau. Yn anffodus, trwy fy ngwaith dw i'n gwybod sut mae trosedd â chyllyll wedi cynyddu, wedi dod yn gyffredin, a pha mor aml mae'n digwydd, yn gynnwys problemau gyda phlant ysgol. Mae'n broblem enfawr, ac yn codi pryder. Roedd golwg y cerflun yn fythgofiadwy, a gwerth ei weld. Gobeithio y bydd e'n cael effaith cadarnhaol, ond dw i ddim yn dal fy ngwynt.

Amser am rywbeth llai difrifol, sef trîth bach. Aethon ni at y peiriant gwerthu llaeth i brynu ysgytlaeth, (i gefnogi ffermwyr lleol, wrth gwrs!) cyn i ni fynd am dro ar hyd y prom. Cerddon ni heibio'r castell am y tro cyntaf, a gwnaethon ni ddarganfod marina a phier arall. Er gwaethaf yr haul, roedd y gwynt dal yn gryf iawn, ac roedd y

môr yn arw, gyda thonnau mawr yn chwalu ar y pier a'r creigiau. Daethon ni o hyd i fainc bant o ffordd y tonnau, ac eisteddon ni i lawr i fwynhau'r ysgytlaeth. Roedd y ceirios du yn flasus iawn.

Wedyn, roedd hi'n amser i fynd yn ôl i'r car, wrth gymryd llwybr byr trwy'r castell. Ond beth anghofion ni i'w wneud cyn i ni adael - yr hen draddodiad ar y prom. Anghofion ni gicio'r bar!

Taith Calon Gymru

Llandeilo i Langadog – Cam 4

gan Sylvia Harris

Unwaith eto mae'n rhaid i ni gerdded i orsaf Llangadog i ddal y trên yn ôl at y ceir yn Llandeilo. Byddai'r trên am un munud i bump yn orsaf Llangadog. Felly, gadawon ni Benarth am saith o'r gloch y bore i yrru i lawr yr M4 unwaith eto. Dim traffig o gwbl ar y draffordd, neis iawn.

Mae'r maes parcio yn rhad ac am ddim yn yr orsaf unwaith eto. Gadawon ni'r ceir yno a gwneud ein ffordd tua'r dref. Doedd neb o gwmpas ar yr awr gynnwys hon ac eithrio cerddwr a'i gi wedi synnu'n fawr iawn i weld criw o saith a chi swllyd yn archwilio'r plac wal am hanes y dref.

Gan adael y dref ar ôl aethon ni dan y rheilffordd gan ddefnyddio'r hen bont haearn a chroesi'r afon Tywi dros bont grog sigledig, yr un mor heriol, i gyrraedd Coed Tregib. Yma roedden ni'n teimlo'n fwy normal wrth i ni ddod ar draws sawl cerddwr cŵn. Roedd y cyfarchiad boreol yn Gymraeg o, bore da, neu shwmae, sain hyfryd i'm clust.

Mae llawer o waith wedi cael ei wneud yma i greu parc coetir cymunedol hyfryd iawn, gyda phlannu newydd, clirio a llwybr pren cadarn iawn dros yr ardaloedd corsio. Yma hyfed, fe welon ni ein bwtsias y gog gyntaf y tymor, newydd agor.

Unwaith i ni adael y coed, roedden ni'n syth yn y gwynt oer rhewllyd. Felly allan â'r hetiau bobl a'r menig. O leiaf roedd yn sych. Unwaith i ni fynd trwy fferm Hafod mae darn hir o gerdded ffordd. Lôn wledig, ond nid ein hoff le i gerdded. Groeson ni'r ffordd fawr ac anelu i fyny at y pwynt Trig. Roedden ni yn nôl yn y cefn gwlad 10 nawr gyda rhyw fferm anghysbell yn y pellter ac

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

yn edrych yn ôl at Gastell Carreg Cennen eto. Roedd y gwynt yn chwythu'n gryf nawr, cuddion ni ein hunain tu ôl i wal gerrig sychion am ein hegwyll coffi cyflym y tro yma.



Roedd y llwybr troed i lawr wedi ei ymylu gan eithin melyn, ei ben yn uchel, yn ei flodau llawn. Cysgod o'r gwynt i'w groesawu am bum munud. Dringo i fyny eto ac ymlaen i'r Gaer Fawr a'r Gaer Fach, dwy fryngaer hynafol a oedd, unwaith, yn

cael eu gwarchod gan wal gerrig anferth. Bu amryw filoedd o bobl yn byw yma. Gallwch weld pam, mae'r lle mor hawdd i'w amddiffyn gyda chlogwyni'n disgyn yn syth a ffynhonnau ar gyfer dŵr a thir o gwmpas ar gyfer cynhyrchu bwyd. Mae enw lleoedd yn awgrymu efallai bod modd groesi'r afon amser maith yn ôl. Arhoson ni yma am ginio. Braf oedd gweld barcutiaid yn chwarae yn y gwynt, yn troelli ac yn troi gyda'r hyrddiau, gan ddangos eu marciau hardd i ni. Ymlaen nawr trwy Glangeidrych tuag at Fethlehem. O diar, anghofion ni ddod a'n cardiau Nadolig!

Yma dyma ni ar ffordd y Bannau, gan fynd heibio fferm Bryngwyn yn hysbysebu ei chaws arobryn, trwy bentrefan Felindre ar Gomin Carreg Sawdde. Cyrhaeddod ni Langadog gyda digon o amser i gael hufen iâ i fwyta'n awchus fel plant drwg ac edrych ymlaen at ein cam nesa.

Un peth diddorol rydyn ni wedi dysgu yw bod yr hen gloch yn dŷ Gelli Aur yn Llandeilo yn cael ei atgyweirio gan yr un cwmni a atgyweiriwyd Big Ben. Roedd y tŷ yn hen goleg amaethyddol. Os dych chi eisiau dysgu mwy ewch at: www.bbc.com/news/uk-wales-61410648

Mae Porthcawl wedi bod yn dre glan môr boblogaidd iawn am flynyddoedd, yn enwedig pan oedd y glowyr ar wyliau am bythefnos. Efallai bod chi'n gallu cofio mynd yno ar wyliau gyda'r teulu i aros mewn carafan ac efallai bod chi'n mynd yno o hyd. Pan fyddwch chi'n mynd i Borthcawl y tro nesa, yn ogystal â cherdded ar lan y môr a bwyta hufen iâ, gadewch digon o amser i ymweld â'r Amgueddfa ardderchog yn y dre. Gwelwch ddolen isod i wefan yr amgueddfa a gwnewch yn siŵr bod chi'n gwirio'r oriau agor.

<https://www.porthcawlmuseum.com>

Aeth grŵp o'r Gymdeithas yno yn ddiweddar a chawson ni ein tywys yn Gymraeg gan Alun Davies, un o'r gwirfoddolwyr ffyddlon sy wedi bod yn gweithio'n galed iawn i greu amgueddfa leol broffesiynol. Mae cynllun yr amgueddfa ynghyd â maint ac amrywiaeth yr eitemau yno yn nodedig iawn.

Roedd adeilad yr amgueddfa yn arfer bod yn hen orsaf heddlu. Lawr staer ydy'r amgueddfa ac mae'r Gymdeithas Gelf leol i fyny'r grisiau. Maen nhw wedi catalogio'r holl eitemau maen nhw wedi casglu ac mae cymaint o eitemau â phosib yn cael eu harddangos.

Mae'r ystafell Fictoriaidd yn cynnwys dillad o'r oes ac mae ystafell arall yn cael ei gosod fel ystafell ysgol Fictoriaidd gyda hen ddesgiau ac ati.

Ar wahân i'r ystafelloedd hynny, mae'r amgueddfa'n canolbwyntio ar arddangosfeydd sy'n adlewyrchu hanes Porthcawl a'r ardal leol yn yr ugeinfed ganrif. Y prif themâu ydy cysylltiad yr ardal â'r môr, y fyddin â'r rheilffyrdd. Mae ystafelloedd gydag arteffactau o'r ddau Ryfel Byd ac arddangosfa yn berthnasol â'r maes awyr Stormy Down. Yn yr Ail Ryfel Bydd cafodd tua 10,000 o griw awyr a daear eu hyfforddi yno.

Mae tair hen gell heddlu yn yr adeilad. Mae un yn edrych fel hen gell heddlu o hyd gyda gwely pren a gobennydd pren a dim toiled! Mae un arall yn dangos hanes y rheilffyrdd lleol. Roedd y rheilffordd yn bwysig ar gyfer glo ar un adeg ond hefyd ar gyfer pobl a oedd yn dod ar wyliau neu am y dydd. Mae'r drydedd yn

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Ymweliad ag Amgueddfa Porthcawl 11



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Eisteddfod Tregaron

Yr Eisteddfod

gan Simon Gregory



Wythnos yn ôl es i ar daith hir ar fws o Lundain i Gaerfyrddin ac wedyn ymlaen i Giliau Aeron, Ceredigion. Arhosais gyda dysgwyr eraill er mwyn i ni gyd ymarfer siarad Cymraeg ac i ymweld â digwyddiad pwysica'r flwyddyn, yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd hi'n digwydd yn Nhregaron eleni. Do'n i ddim wedi bod yn yr Eisteddfod o'r blaen, felly do'n i ddim yn gwybod beth i ddisgwyl.

Ar ôl i ni barcio'r car, ro'n i'n gweld arwydd mawr at y bryn, TREGARON. O'r diwedd! Mae llawer o stondinau cymdeithasau, cerddoriaeth, celf - adlewyrchiad o fywyd Cymru, i gyd ar yr un maes. Mae llawer o berfformiadau ar y llwyfannau. Cyngerdd Dafydd Iwan oedd fy ffefryn. Mae cystadlaethau dawnio, canu, a.y.b. Mae perfformiadau eraill yn y Tŷ Gwerin, y Pafiliwn ac o gwmpas y maes. Llawer o stondinau bwyd yn cynnig paëla, bwyd llysieuol,

pysgod a sglodion, crempog, hufen iâ, diodydd, a.y.b.

Mae llawer i'w wneud, ond dim gormod o bobl. Felly, mae'n hawdd crwydro o gwmpas y maes.



Daeth pobl o bobman yng Nghymru, ond daeth ymwelwyr o dramor hefyd. Cwrddais i â dysgwyr dw i ddim ond wedi gweld ar lein o'r blaen. Roedd yn hyfryd iawn i gwrdd â ffrindiau wyneb i wyneb.

Arhosais yn Llambled dros yr wythnos a chrwydrais o gwmpas. Roedd arddangosfa a siop ddiddorol yng Nghanolfan y Cwilt Cymreig. Mae Tafarn y Vale yn dafarn gymunedol hyfryd ger Felinfach. Roedd Noson Lawen Say Something in Welsh yno nos Lun ac roedd y staff cyfeillgar yn cynnig Wrexham lager a chwrw Cymreig o bob fath a chreision Cymreig. Dw i'n gwybod nawr bod yr halen gorau yn dod o Ynys Môn. Welais i'r traeth hyfryd yng Nghei Newydd. Ar y ffordd i Gei Newydd, ymwelais ag Aberaeron gyda chalon dre hyfryd, sy'n enwog am hufen iâ mêl. Mae'n flasus iawn!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Oedd rhaid i fi deithio nôl adre ar y bws bore dydd Sadwrn. Diolch byth, ro'n ni wedi bod yn lwcus gyda'r tywydd. Dim ond tipyn bach o law yn gynnwys yn yr wythnos. Roedd yn wyliau gwych! Bydda i'n mynd i'r Eisteddfod nesa ym Mhwlheli yn bendant.

Hwyl fawr!

Diwrnod Braf ar y Maes

gan Karen Shreeve

Ar ôl egwyl o ddwy flynedd, ym mis Gorffennaf 2022, roedd yr Eisteddfod yn ôl. Dyma'r tro cyntaf i fi fynd i'r Eisteddfod. Ro'n i'n mor lwcus achos trefnwyd taith bws i'r Maes gan diwtoriaid 'Dysgu Cymraeg'. Doedd dim eisiau i fi yrru i Dregaron, diolch byth, a ro'n i'n gallu sgwrsio gyda myfyrwyr eraill ar y bws. Cyfle da i ymarfer siarad Cymraeg oedd e cyn cyrraedd y Maes, lle byddai bawb yn siarad Cymraeg. Hefyd, roedd amser i edrych ar raglen y dydd ar 'ap' yr Eisteddfod. Roedd cymaint o ddewis.

Roedd y tywydd dal yn eithaf gwlyb yn y bore ar ôl glaw'r diwrnod o'r blaen, ond wrth i ni gyrraedd Tregaron roedd hi'n sych er yn gymylog. Croesi bysedd, fasen ni ddim eisiau cot law neu welis! Bant â ni, trwy'r giatiau a dyna ni ar y maes. Y lle cyntaf aethon ni oedd Maes D, ardal y dysgwyr; amser i gael paned a chwarae gêm eiriau cyn mynd i wrando ar gerddoriaeth yn y Tŷ (neu babell) Gwerin. Roedd Geraint, un o'r tiwtoriaid, yn canu iwcaili gyda chylch bach o gerddorion eraill. Ro'n nhw'n dda iawn, a phan wnaethon nhw ganu 'Oes gafr eto?' roedd pawb yn gwenu, a rhai ohonon ni'n canu. Digon o hynny (gyda fy llais ofnadwy). Roedd amser i ymweld â Maes D eto i ddod i adnabod ymgeiswyr 'Dysgwr y Flwyddyn'. Roedd pob un yn deilwng o'r teitl; bydden ni'n darganfod pwy sy wedi ennill nes ymlaen.

Gwnaeth grŵp bach ohonon ni grwydro o gwmpas y stondinau i amsugno'r awyrgylch. Dyn ni wedi arfer siarad â dysgwyr eraill, ond nawr ro'n ni'n siarad â phobl rugl, a dyna syndod - ro'n nhw gallu'n deall ni a'r syndod mwyaf, ro'n ni'n gallu eu deall nhw! Ac ie, ro'n ni'n gwneud camgymeriadau, ond doedd dim ots. Ro'n ni'n siarad, yn y gwyllt, gyda phobl go iawn.

I fi, roedd hi'n hwb i fy hyder, a dw i'n gobeithio ei fod yr un peth i'r lleill.



Erbyn hyn, roedd y cymylau wedi mynd a'r haul yn disgleirio felly, ar ôl cael cinio, gwnaethon ni ymlacio am dipyn ar bwys y llwyfan lle'r oedd côr yn canu. Wedyn, gyda hufen iâ yn ein dwylo gwnaethon ni gerdded ar hyd mwy o stondinau i ymweld â'r Lle Celf. Roedd arddangosfa yno gyda lluniau, crochenwaith, celfydd gwydr a cherflunio. Gwnaethon ni ein pleidlais i ddewis enillwr wobwr y bobl a gwnaethon ein ffordd i'r Pafiliwn mewn pryd am ganlyniad 'Dysgwr y Flwyddyn'. Roedd yr enillwr wedi'i lethu'n llwyr a doedd e ddim yn gwybod beth i'w ddweud. Da iawn Joe!

Taswn i wedi nabod rhywun sy'n cystadlu, baswn i wedi gwylio rhai o'r cystadlaethau. Er hynny, roedd y diwrnod yn brofiad gwych, mewn awyrgylch cyfeillgar, ar ddiwrnod braf. Mae'r Eisteddfod yn fwy na cherddoriaeth, barddoniaeth a dawnsio. Mae'n lle i ddathlu ein talent, ein diwylliant ac ein hiaith. Diolch Dysgu Cymraeg am ei drefnu.

Mae'n le i ddathlu ein dysgwyr hefyd - Rob

Diolch i Simon a Karen am erthyglau ardderchog sydd yn dweud yn glir faint o werth cawson nhw wrth fynd i'r Eisteddfod. Dyle'r Eisteddfod fod yn uchafbwynt y flwyddyn i bob un sy'n dysgu Cymraeg. Mae'n debyg mai hyn fydd y cyfle gyntaf i chi gael i ddefnyddio eich Cymraeg efo 'pobl go iawn' ac i chi sylweddoli bod eich holl ymdrechion dros y flwyddyn wedi bod yn llwyddiannus.

Byddech yn ymwybodol o'r cyfeillgarwch mae'r Cymry Cymraeg yn teimlo tuag atoch am fynd i'r holl drafferth i ddysgu ein hiaith hyfryd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cofiwch mi fydd croeso mawr i chi yn y cymdeithasau yn eich ardal, ymunwch a Merched y Wawr, dewch ar deithiau Cymdeithas Edward Llwyd i ddysgu am fyd natur. Ymunwch â'ch Cymdeithas Cymraeg lleol, y capel neu'r eglwys. Ac os nad oes dim byd o'r fath yn lleol ewch at eich gilydd i ymarfer eich iaith mewn caffi lleol, rhywle lle bydd pobl yn eich clywed yn siarad Cymraeg. Pan fydd Cymry Cymraeg yn eich clywed chi bydden nhw'n sicr o siarad efo chi. Efallai byddech chi eisiau ffurfio eich cymdeithas eich hun er mwyn cerdded, seiclo, canu, astudio hanes ac ati. Dyma beth mae dysgwyr wedi gwneud ym Mhen y Bont ar Ogwr - creu Cymdeithas Hanes lle doedd dim o'r blaen. Cymdeithas hanes i'r holl gymuned!

Atgofion o Gwm Llynfi

Rhan 3

gan Celia Jones

Er i'r ysgol feithrin Gymraeg gyntaf erioed gael ei hagor mewn festri capel ym Maesteg yn 1949, prin iawn oedd ysgolion meithrin ar draws Cymru cyn y 70au. Ac eto mae'n amlwg fod cryn frwdfrydedd ymhlith rhieni a fu'n fodlon talu am yr addysg meithrin Gymraeg ym Maesteg - yn galw mor gynnar â'r 50au am gael addysg Gymraeg cynradd ac uwchradd i'w plant.

Yn ôl cyfrifiad 1971 dim ond 17% o drigolion y Cwm oedd yn siarad Cymraeg. Gyda'r iaith wedi colli tir mor sylweddol, diolchwn am weledigaeth a brwdfrydedd ambell i ysgolhaig cenedlaetholgar fel Jac L. Williams, Dan Lyn James a Norah Isaac (a aned ac a fagwyd ym mhentre'r Caerau) ac eraill. Erbyn 1981 roedd 350 o gylchoedd meithrin yn bodoli ar draws y wlad. Roeddynt wedi deall mai trwy addysgu'n plant yn y Gymraeg o oedran meithrin y byddem yn cryfhau a sicrhau dyfodol yr iaith.

Pan ddaeth y teledu i'n cartrefi, roedd y cyfan yn Saesneg a chafodd hyn ddylanwad negyddol ar yr iaith. Mae'r ddyled yn fawr i Gwynfor Evans am ei frwydr i gael sefydlu S4C yn 1982.

Ar ôl bron colli'r dydd, gwerthfawrogwn y rhan hanfodol a chwaraeodd Syr Ifan ab Owen Edwards yn sefydlu Urdd Gobaith Cymru 100 mlynedd union yn ôl yn 1922 a hefyd yr Ysgol Gynradd Gymraeg gyntaf yn y Llest yn 1939. Cyfrannodd yn sylweddol at achub ein treftadaeth a'n diwylliant a'n hiaith a rhoddodd y cyfle i blant Cymru gael eu haddysgu, eu hwyl

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Pawb yma yn siarad Cymraeg!

Dw i wedi copio y darn yma o dudalennau 'Wilia' ein papur bro yma yn Abertawe. Dw i'n siŵr na fydden nhw'n poeni.



Bwyty Truffle

Yn haeddu ein cefnogaeth!

Mae pob un o 11 aelod o staff Truffle, ar King Edward's Road, yn siarad Cymraeg ac yn gyn-ddisgyblion Ysgol Bryn-y-Môr. Oes angen rhagoro esgus dros fynd mas i gael pryd o fwyd?

Y manylion pwysig

Cyfeiriad:

1A King Edward's Rd, Brynmill, Swansea
SA1 4LH

Amser agor:

Dydd Iau 6 y.h. - 11.30 y.h.
Dydd Gwener 5 y.h. - 11.30 y.h.
Dydd Sadwrn 12 c.d. - 11.30 y.h.

Cysylltwch:

01792 547 246
info@truffleswansea.com

Llefydd ble mae sgysiau Cymraeg ar gael

Southgate, Bro Gŵyr

Three Cliffs Cafe **SA3 2DH** - pob pnawn dydd Mawrth am 2.00 am ryw awr a hanner. Does dim ond rhaid i chi droi fyny neu cysylltwch â fi o flaen llaw bobwennol@ntlworld.com

Yr Amwythig

Grove Hotel, 147 Belle Vue Road, Shrewsbury. **SY3 7NN** ar y cyntaf a'r trydyd ddydd Iau pob mis, am 7.30 Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Bryan Roberts - bryro@btinternet.com neu ar 07985919358

Porth, Y Rhondda

Yr Hen Llyfrgell, 47 Pontypridd Road **CF39 9PG**. Cyfarfod yn y lolfa goffi bob dydd Iau am 10.30 y.b. Mae llyfrau ail law Cymraeg ar werth a llawer o bethau eraill yn mynd ymlaen hefyd.

If you go to a Welsh group or know of one that is not on this list please let me know. Groups are a simple and effective way of, not only keeping your Welsh going but, developing it and will eventually get you into the Welsh World. If you

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

want to start one in your area let me know and together we can try and get members.

Geirfa

Taith Broughton

Rhydydd - warning
Crasboeth - scorching
Cynghori - to advise
Eli haul - suntan lotion
Pwyll pia hi - care had to be taken
Twyni tywod - sand dunes
Torheulo - to sunbathe
Llecyn - a spot
Dryllu - to wreck
Yn swyddogol - officially
Awel - breeze
Archebu - to order

Bywyd Gwyllt

Naturiaethwr - naturalist
Adnabyddus - well known
Gwlypdiroedd - wetlands
Taw pia hi - best keep quiet
Ysgyfarnog - hare
Broga, llyffant - toad (De), frog (Gog) don't ask!
Newid hinsawdd - climate change
Tafodiaith - dialect
Pobl gyfoethog - rich people
Annog - to encourage

Chwarae Teg

Arbennig - special
Statws swyddogol - official status
Peri dicter - to cause anger
Hunaniaeth - identity
Diwylliant - culture
Rhanbarth - region
Hollol resymol - totally reasonable
Llys - court
Beili - bailiffs
Atafaelu - confiscate
Dodrefn - furniture
Straffaglu - to struggle
Hawliau dynol - human rights
Sefydliad - institution
Cydraddoldeb - equality
Esgor - to give birth
Darlledu - to broadcast
Heddychol - peaceful
Gwrthodiad cyffredinol - general refusal
Penboethiaid - hotheads
Eithafwyr - extremists

Taith Boncath

Trueni - pity
Gwirio - to check
Yn y rhes - in the queue
Dyn diarth - a stranger
Chwinciad - a blink
Trywsus dal dŵr - overtrousers
Tancer carthion - waste lorry (enough said)
Lled y lân - the width of the lane
Datrys - to solve
Tanc carthion - septic tank
Gyr - herd
Busneslyd - inquisitive
Talu teyrnged - to pay tribute
Tirlun - landscape
Ysgrifen - inscription
Addurnol - decorative
Ŷd - corn, grain
Delfrydol - ideal
Adfeilion - ruins
Crefydd - religion
Dalion poethion - nettles
Safon - standard
Cyrion - outskirts

Atgofion

Brwdfrydedd - enthusiasm
Gweledigaeth - vision
Cylchoedd meithrin - nursery groups
Gwerthfawrogi - to appreciate
Hanfodol - essential
Treftadaeth - heritage
Egwyddorion - principles
Lliaws - host (of)
Clustnodi - to earmark
Rhod wedi troi - the wheel has turned
Trawsnewidiad - transformation
Llechen - slate
Amrantiad - an instant

Gwneud i chi feddwl

Consti - Constitution Hill
Nod - purpose
Cerflun - statue
Anobeithiol - hopeless
Cyfarwyddiadau - instructions
Cylllell - knife
Nodedig - remarkable

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Atafaelu - to confiscate
 Hylifau corforol - bodily fluids
 Ymwybyddiaeth - awareness
 Trosedd - crime
 Ymddygiad - behaviour
 Treisgar - aggressive
 Cynnyddu - to increase
 Bythgofiadawy - unforgettable
 Cadarnhaol - positive
 Llai difrifol - less serious
 Ysgytlaeth - milk shake
 Ceirios du - black cherries
 Cicio'r bar - to kick the bar

*It is a tradition in Aberystwyth to 'kick the bar'
 i.e. the bottom rail at the far northern end of
 the prom in Aberystwyth. It probably infuses
 one with wisdom, good fortune and all sorts of
 things. But, at the moment totally unproven,
 but then, who knows? So next time you go to
 Aberystwyth, have a go and let us know of the
 positive changes to your life thereafter.
 You can make it up if you like - everything will
 get published!*

Taith Calon Cymru

Ac eithrio - apart from
 Archwilio - to study
 Pont grog - suspension bridge
 Sigledig - shaky
 Heriol - challenging
 Bwtsias y gog - bluebells
 Wal cerrig sychion - dry stone wall
 Ymylu - to border
 Eithin - gorse
 Bryngaer hynafol - ancient hill fort
 Amddiffyn - to defend
 Ffynon - a well
 Arobryn - prizewinning
 Pentrefan - hamlet
 Atgyweirio - to repair

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com